Arolwg Boddhad Ymwelwyr yr RSPB

CYFLE I ENNILL GWOBR AM DDIM

Rheolau

1. Mae pawb sy'n byw yn y DU ac sy'n 18 oed neu'n hŷn yn gallu rhoi cynnig am y wobr, ac eithrio cyflogeion yr RSPB, eu teuluoedd, asiantau neu unrhyw drydydd parti sydd â chysylltiad uniongyrchol â gweinyddu'r wobr. Efallai y gofynnir am dystiolaeth o oedran.

2. Mae'r cyfle i ennill gwobr am ddim a does dim rhaid prynu rhywbeth i gymryd rhan.

3. Rhaid cyflwyno pob cynnig drwy lenwi Arolwg Ymwelwyr yr RSPB a dim ond un cynnig y pen a ganiateir.

4. Nid yw'r RSPB yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gynigion sydd heb eu cwblhau'n llwyddiannus oherwydd nam technegol, diffyg technegol, methiant caledwedd neu feddalwedd cyfrifiadurol, neu fethiant lloeren, rhwydwaith neu weinydd o unrhyw fath.

5. Bydd enillydd yn cael ei ddewis ar hap drwy broses gyfrifiadurol ar ddiwrnod gwaith cyntaf pob chwarter (hy mor agor â phosibl at 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref, 1 Ionawr).

6. Bydd pob enillydd yn cael taleb rhodd RSPB gwerth £100, y bydd modd ei defnyddio yn siopau'r RSPB ac yn www.shopping.rspb.org.uk

7. Bydd yr enillydd yn cael ei hysbysu drwy e-bost (gan ddefnyddio'r manylion sydd wedi'u rhoi wrth gynnig) cyn pen wythnos o ddyddiad dewis enw'r enillydd. Os nad yw'r enillydd yn ymateb i'r RSPB o fewn 21 diwrnod i gael gwybod gan yr RSPB, bydd gwobr yr enillydd yn cael ei hildio a bydd gan yr RSPB hawl i ddewis enillydd arall yn unol â'r broses a ddisgrifir uchod.

8. Bydd y wobr yn cael ei hanfon at yr enillydd o fewn 7 diwrnod i'w hysbysu ei fod wedi ennill.

9. Nid oes modd cyfnewid y wobr, ni ellir ei throsglwyddo ac ni chynigir arian yn lle'r wobr.

10. Mae'r RSPB yn cadw'r hawl i newid y wobr am wobr arall o werth cyfartal neu uwch os bydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr RSPB yn golygu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny.

11. Mae penderfyniad yr RSPB ynghylch unrhyw agwedd ar y wobr yn derfynol ac yn rhwymo ac ni fydd unrhyw ohebu yn ei chylch.

12. Mae'r RSPB yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu wrthod dyfarnu'r wobr i unrhyw un sy'n mynd yn groes i'r Rheolau neu'r Telerau a'r Amodau neu ysbryd y Rheolau neu'r Telerau ac Amodau.

Telerau ac Amodau

1. Drwy gyflwyno eich cynnig i'r RSPB, rydych yn cytuno i gael eich rhwymo yn gyfreithiol gan y Rheolau a'r Telerau a'r Amodau hyn.

2. Mae'r RSPB yn cadw'r hawl i ddirymu, canslo, gohirio neu ddiwygio'r cynnig pan fydd yn angenrheidiol gwneud hynny.

3. I'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd yr RSPB, ei is-gwmnïau, ei asiantau na'i ddosbarthwyr, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gyfrifol nac yn atebol am roi iawndal i'r enillydd ac ni fydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled, difrod, anaf personol neu farwolaeth sy'n digwydd o ganlyniad i

dderbyn y wobr, ac eithrio os achosir hynny gan esgeulustod yr RSPB, ei asiantau neu ei ddosbarthwyr, neu eu cyflogeion. Ni effeithir ar eich hawliau statudol.

4. Rydych yn cytuno i indemnio'r RSPB a'i is-gwmnïau yn erbyn unrhyw hawliad gan unrhyw drydydd parti am fynd yn groes i unrhyw rai o'r telerau a'r amodau hyn.

5. Mae'r RSPB yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r Rheolau a'r Telerau a'r Amodau hyn o dro i dro a bydd unrhyw fersiwn wedi'i ddiweddaru'n weithredol cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi.

6. Mae eich data yn bwysig iawn i'r RSPB; dim ond yn unol â thelerau Polisi Preifatrwydd yr RSPB byddwn ni'n defnyddio eich data personol. Efallai bydd data personol a ddarparwyd yn ystod yr ymgyrch hyrwyddo yn cael ei basio ymlaen i gyflenwyr trydydd parti, ond dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i gyflawni/danfon/trefnu'r wobr.

7. Bydd y wobr yn cael ei llywodraethu gan gyfraith Lloegr ac mae pawb sy'n cymryd rhan yn y wobr yn ildio i awdurdodaeth llysoedd Lloegr.

8. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig yng Nghymru ac yn Lloegr, rhif 207076 ac yn yr Alban, rhif SC037654 a'i chyfeiriad cofrestredig yw The Lodge, Sandy, Swydd Bedford SG19 2DL.